SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #38 SCHTh Gogledd Cymru – 2 Chwefror 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #38 – 2 February 2024**

## Y Panel Heddlu a Throsedd yn cytuno ar braesept 2024-25

Mewn cyfarfod ar ddydd Llun, 29 Ionawr, ym Modlondeb, Conwy, gwnaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gymeradwyo cynnig Andy Dunbobbin, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, am gynnydd cyfradd is na'r disgwyl yn y praesept plismona. Bydd hwn yn golygu y bydd cynnydd o 32c yr wythnos (neu £16.56 y flwyddyn) yn y Dreth Gyngor am eiddo Band D ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. O ran canran, mae hyn yn golygu cynnydd o 4.97% yn y dreth gyngor o'i gymharu â llynedd. Bydd y swm a gytunwyd yn dod i rym o fis Ebrill eleni.

Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn gorff sy'n cynnwys deg cynghorydd ledled Gogledd Cymru a thri aelod annibynnol cyfetholedig. Mae'n craffu gwaith y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Roedd dros hanner y bobl wnaeth gymryd rhan mewn arolwg ar y praesept yn cefnogi cynnydd o leiaf £17.50 yn y Dreth Gyngor. Mae hyn yn golygu fod y ffigwr £16.56 yn sylweddol is na'r swm a welwyd fel derbyniol gan drigolion. **Darllenwch fwy yma**.



## Police and Crime Panel agrees precept for 2024-25

At a meeting on Monday, 29 January, in Bodlondeb, Conwy, the North Wales Police and Crime Panel approved Police and Crime Commissioner, Andy Dunbobbin's, proposal for a lower than anticipated increase in the policing precept. This will mean that there will be a 32p per week (or £16.56 annually) increase in Council Tax for a Band D

property for the financial year 2024-25. In percentage terms, this means a 4.97% increase on last year and the agreed amount will be effective from April this year.
The Police and Crime Panel is a body made up of ten councillors from across North Wales and three co-opted independent members and scrutinises the work of the Police and Crime Commissioner.

Over half of people who participated in a survey on the precept were supportive of an increase in in Council Tax of at least £17.50, meaning the figure of £16.56 is significantly below the amount seen as acceptable by local residents. **Read more here**.

## Lansio ffilm rymus am ymwybyddiaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngogledd Cymru

Ar 30 Ionawr, dangoswyd ffilm newydd drawiadol, 'Digon yw Digon' , am y tro cyntaf yn Sinema'r Empire yng Nghaergybi. Wedi'i hariannu gan y Gronfa Strydoedd Diogelach, nod y ffilm ydy codi ymwybyddiaeth am effeithiau difrifol ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith disgyblion ysgol blwyddyn 8 ledled Cymru.

Mae 'Digon yw Digon' yn dramateiddio digwyddiadau bywyd go iawn sy'n cynnwys unigolyn ifanc sy'n cael eu dal mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n mynd allan o reolaeth yn gyflym. Mae'r ffilm yn edrych ar themâu perthnasol fel pwysau gan gyfoedion a dylanwad y cyfryngau cymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Ei nod ydy tynnu sylw at sut y gall gweithgaredd y gall pobl ifanc yn eu harddegau ei ystyried yn hwyl diniwed fynd ar chwâl yn hawdd, hefo cosbau difrifol.

Cafodd y ffilm ei hariannu drwy Gronfa Strydoedd Diogelach. Mae hon yn rhaglen gan y Swyddfa Gartref sy'n annog Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac awdurdodau lleol ymgeisio am fuddsoddiad am fentrau er mwyn atal troseddau mewn cymdogaethau. **Darllenwch fwy yma.**



## Powerful anti-social behaviour awareness film launches in North Wales

January 30 saw the premiere of an impactful new film, 'Enough is Enough', at the Empire Cinema in Holyhead. Funded by the Safer Streets Fund, the film aims to raise awareness of the serious effects of anti-social behaviour (ASB) among year 8 school pupils across Wales.

'Enough is Enough' dramatises real-life events involving a young person caught up in ASB activities that quickly escalate out of control. The film explores relevant themes like peer pressure and social media influence amongst

young people and aims to highlight how activity that teenagers may see as harmless fun can easily spiral, with serious penalties.

The film was funded through the Safer Streets Fund, which is a Home Office programme that encourages Police and Crime Commissioners and local authorities to bid for investment for initiatives to prevent neighbourhood crime. **Read more here.**

## Gorsaf Newydd Prestatyn

Mae'n edrych yn debyg y bydd gorsaf newydd yn agor yng nghanol tref Prestatyn. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd â Chyngor Sir Ddinbych wedi clustnodi safle yng nghanol y dref a fydd, yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio yn dod yn ganolfan ar gyfer swyddogion ymateb a'r Tîm Plismona Cymdogaethau.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman: "Mae hyn yn rhywbeth y mae trigolion a busnesau Prestatyn wedi eisiau ers tipyn a dwi'n falch ein bod ni wedi cael gafael ar adeilad addas yn natblygiad Llys Llên ar safle'r hen lyfrgell ar Ffordd Nant Hall. Mae ein swyddogion a staff yn rhan o'r gymuned leol ac mae'n bwysig iawn eu bod yn weladwy, bod ganddynt bresenoldeb cryf yn y dref a bod y lle yn hawdd i'r cyhoedd ei gyrraedd. Bydd yr orsaf newydd yn sicrhau ein bod yng nghanol y gymdeithas ac yn agos i'r parc manwerthu prysur." **Darllenwch fwy yma.**



## New Prestatyn Station Planned

Prestatyn looks set to have a new police station in the heart of the town. North Wales Police and the Office of the Police and Crime Commissioner, working with Denbighshire County Council, have identified a town centre site which subject to planning permission will become a base for response officers and the Neighbourhood Policing Team.

Chief Constable Amanda Blakeman said: “This is something that Prestatyn residents and businesses have wanted for some time and I am delighted that we have now found a suitable building at the Llys Llen Development on the site of the former library in Nant Hall Road. Our officers and staff are part of the local community, it is really important that they are visible, have a strong presence in the town and are easily accessible to the public. This new station will ensure that we are at the heart of the community and close to the busy retail park.” **Read more here.**

## : i archebu gwyliau'n saff yn ystod mis Chwefror

Chwefror ydy'r mis yn y flwyddyn pan mae pobl yn dechrau meddwl am archebu eu gwyliau haf. Mae'r rhan fwyaf non ni'n edrych ymlaen at wyliau blynyddol neu seibiant bach. 'Da ni'n aml yn dod ar eu traws ac yn eu harchebu nhw . Ond mae twyllwyr yn hoff o'r rhyngrwyd hefyd. Maen nhw'n defnyddio gwefannau, rhestrau, negeseuon e-bost, ɔysebion, cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun a galwadau ffôn ffug er mwyn eich twyllo chi ı am wyliau sydd ddim yn bodoli.

ıwyn helpu eich achub chi rhag colli eich gwyliau a'ch pres, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wed ıno hefo Get Safe Online er mwyn rhoi cynghorion arbenigol at ei gilydd ar chwilio am ac archebu gwyliau'n saff a thio'n hyderus. Mae Get Safe Online yn brif ffynhonnell gwybodaeth deg, ffeithiol a hygyrch ar ddiogelwch ar-lein yn y **Darllenwch fwy yma.**



## w to book holidays safely this February

ruary is the month of the year when people begin to think about booking their summer holidays and most of us look vard to an annual holiday or short break which, often, we find and book online. But fraudsters also love the internet. y use fake websites, listings, emails, advertisements, social media posts and texts – and also phone calls – to trick you paying for a holiday that doesn't exist.

ıelp save you from losing your holiday and your money, the Police and Crime Commissioner for North Wales has tear vith Get Safe Online to put together some expert tips on safely searching and booking holidays and travel with confide Safe Online is a leading source of unbiased, factual and easy-to-understand information on online safety in the UK. **d more here.**

## Y CHTh yn ymweld â Chaernarfon er mwyn siarad hefo grwp ieuenctid cymuned LHDTQ+

Ar 22 Ionawr, fe wnaeth Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) ymweld â safle GISDA yng Nghaernarfon er mwyn cyfarfod hefo staff a phobl ifanc o'u Clwb Ieuenctid LHDTQ+. Roedd yno er mwyn siarad am gysylltiadau cymunedol hefo'r heddlu a phryderon ynghylch trosedd casineb.

Mae GISDA yn elusen a sefydlwyd yn 1985 sy'n rhoi help a chynnig dwys cyfleoedd i bobl ifanc bregus rhwng 14 a 25 oed yng Ngogledd Cymru. Mae ganddyn nhw hefyd leoliadau ym Mhwllheli a Blaenau Ffestiniog. "Mae Clwb Ieuenctid GISDA yn chwarae rôl hanfodol wrth siapio'r dyfodol gan roi amgylchfyd cynorthwyol i bobl ifanc.

Gwnaeth prosiect LHDTQ+ GISDA dderbyn gwobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Ngwobrau Cymunedol 2023 y CHTh fel cydnabyddiaeth o'r gwaith maen nhw wedi'i wneud hefo'r gymuned. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC visits Caernarfon to speak to LGBTQ+ community youth group

On the 22 January North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin visited the GISDA base in Caernarfon to meet with staff and young people from their LGBTQ+ Youth Club, to talk about community relations with the police and concerns regarding hate crime.

GISDA is a charity founded in 1985 that provides support and offers opportunities to vulnerable young people aged between 14 and 25 years old in North Wales. They also have bases in Pwllheli and Blaenau Ffestiniog. The GISDA Youth Club plays a pivotal role in shaping the future by providing a supportive environment for young individuals. GISDA's LGBTQ+ project received the Equality, Diversity, and Inclusion award at the PCC's 2023 Community Awards in recognition of the work they have done with the community. **Read more here.**

---

### Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media

- North Wales community groups get cash from festive fund | cambrian-news.co.uk *(Erthygl saesneg)*
- Marking 50 years of North Wales Police | North Wales Police *(Erthgyl saesneg)*
- North Wales Police tops survey of public confidence | North Wales Chronicle *(Erthgyl saesneg)*

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy  LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy  LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy